# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **5ed o Chwefror 2026** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Megan Lloyd Williams (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa) Raymond Jones (Pentrefelin) Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) Huw Pritchard (Pentrefelin), John Till (Golan), Gwilym Evans (Prenteg) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | MLW (Eitem 10)<br>RJ (Eitem 10)<br>SCH (Eitem 10)<br>EE (Eitem 10)<br>EE (Eitem 10)<br>IE (Eitem 10) |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RP yn cynnig a CW yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Priffyrdd Dwyfor i faterion a godwyd yng nghyfarfod ym mis Ionawr:<br><br>Draen Prenteg i Tyrpeg – Arolygwr ffyrdd wedi trefnu i lanhau'r draen unwaith yn rhagor<br><br>Draen Lôn Tabor – Arolygwr yn mynd i drefnu archwiliad pellach o'r safle yma yn fuan. Ar ddeall fod y mater wedi'i ddatrys ers derbyn yr ymateb yma.<br><br>Cyflwr Ffordd Golan/Cwmystradllyn a Chwm Pennant - trefniant mewn llaw i lanhau'r ffordd ac i gynnal gwaith beidio i wella'r sefyllfa dŵr ar y ffordd.<br><br>Gridiau gwartheg Cwmystradllyn i Brenteg - Archwiliad o'r gridiau wedi cael ei gynnal a threfniadau mewn llaw i atgyweirio/archebu canllawiau newydd i'r safleoedd dan sylw. |
| 7. | Mynwentydd: | Sied Mynwent Bethel – pris wedi ei dderbyn i wneud y gwaith atgyweirio.<br><br>** MLW yn ymuno hefo'r cyfarfod<br><br>RJ yn cynnig derbyn y pris, pawb yn cydweld. Clerc i gysylltu hefo'r contractwr.<br><br>Nodwyd bod angen i'r gwaith gael ei wneud mor fuan â phosib. JJ i osod côn i rwystro pobl rhag parcio rhy agos i'r sied tan mae'r gwaith wedi'i gwblhau. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Llwybr Ganolfan Gymdeithasol Golan – Drain wedi tyfu dros y llwybr. Cysylltu hefo contractwr.<br><br>*** IE yn ymuno hefo'r cyfarfod.<br><br>Llwybr 105 – Gwaith wedi dechrau ar wneud gwelliannau i'r llwybr yma cyn y Nadolig. Tywydd rhy wlyb i orffen y gwaith ar hyn o bryd.<br><br>Camfeydd ar Graig Garn wedi pydru ac angen sylw. Clerc i gysylltu hefo Awdurdod Parc Eryri. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin:** Adroddodd RJ fod Cyngor Gwynedd wedi bod i lanhau'r nant ac yn fod i ddychwelyd gyda chraidd caled. Nid ydynt wedi edrych ar y darn ble mae peryg i rywun ddisgyn i mewn i'r nant ger yr hen eglwys. Clerc i adrodd am hyn eto.<br><br>Pont Wern a'r ffordd tuag at Treflys - mae yna arwydd yng ngheg y ffordd sydd yn dweud bod y ffordd wedi cau. Mae'n gamarweiniol am fod y ffordd yn agored hyd at y darn cyn traeth y Graig ddu sydd yn dueddol o orlifo. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.<br><br>Adroddwyd eto fod y safle bws llechi ger y Wern yn beryg. Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd – Adran Eiddo.<br><br>**Bryncir:** Bu i EE a'r Clerc drafod pryderon y safle bws presennol gyda Mabon ap Gwynfor AS a Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor yn ystod digwyddiad brecwast Undeb Amaethwyr Cymru yn y Farchnad ym Mryncir. Dywedodd Mabon a Nia eu bod ar y ffordd i gyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd ac y byddent yn codi'r mater gyda hwy. Clerc i ofyn am ddiweddariad.<br><br>**Garndolbenmaen:** Adroddwyd bod grid dŵr ger Wenallt wedi suddo ac yn beryg. Soniwyd hefyd bod angen ail agor ffosydd. Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd.<br><br>Derbyniwyd cais i Gyngor Cymuned Dolbenmaen gefnogi cais preswylydd sydd yn byw mewn eiddo'r gymdeithas tai ADRA. Dim ond un gwresogydd trydan sydd gan y preswylydd drwy'r tŷ. MLW yn cynnig ein bod yn ysgrifennu at ADRA yn cefnogi cais y preswylydd, RJ yn eilio a phawb yn cydweld.<br><br>Llongyfarchiadau mawr i Eisteddfod Garndolbenmaen, cafwyd eisteddfod lewyrchus unwaith yn rhagor.<br><br>Soniwyd bod yna grŵp newydd wedi'i sefydlu yn y pentref sydd yn ymwneud â ffermio bro a'u bod wedi cynnal eu cyfarfod cyntaf.<br><br>**Golan:** Adroddwyd bod y ffordd drwy Golan wedi cael ei lanhau. Soniwyd bod gwaith wedi cael ei wneud i stopio dŵr rhag rhedeg i lawr y ffordd yng Nghwm Pennant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bin halen newydd wedi cael ei osod yng Nghwm Pennant ond mae o wedi cael ei osod yn rhy uchel i fyny. Clerc i gysylltu gydag Andrew Cockerill o Adran Priffyrdd i drefnu i gael ei symud yn is i lawr.<br><br>Soniwyd bod yna gôn wedi cael ei osod ar hyd Lôn Fudr sydd yn culhau'r ffordd yn ofnadwy. Mae yna dwll yna sydd yn achosi peryg. Ddim yn siŵr beth sydd wedi achosi'r twll. SCH wedi codi'r mater gyda Chyngor Gwynedd ond heb gael ymateb eto. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.<br><br>**Penmorfa:** Goryrru dal i fod yn broblem drwy'r pentref. Soniwyd bod modd adrodd am oryrru i Gan Bwyll. Soniodd SCH bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu "buffer zone" rhwng yr ardal 60mya a 20mya.<br><br>Adroddodd IE bod Penmorfa wedi bod yn llwyddo i gael grant drwy Hufenfa De Arfon i gael diffibriliwr i'r pentref.<br><br>**Prenteg:** Dim i'w adrodd |
| 10. | Rhoddion Ariannol | Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:<br><br>CFFI Dyffryn Madog - £300.00<br>Dawns i Bawb - £100.00<br>Theatr Bara Caws - £200.00<br>Clwb Merched Garn - £100.00<br>Eisteddfod Garndolbenmaen - £300.00<br>Canolfan Pentrefelin - £400.00<br>Neuadd Penmorfa - £400.00<br>Ysgol Garndolbenmaen - £300.00<br>Ysgol y Gorlan - £300.00<br>Canolfan Gymdeithasol Golan - £400.00<br>Neuadd Garndolbenmaen - £400<br><br>Penderfynwyd peidio rhoi rhodd i Urdd Gogledd Cymru - MLW yn cynnig a JJ yn eilio. Dim cais wedi'i dderbyn gan Ranbarth Eryri.<br><br>Gan nad oes cyfrif banc gan Glwb Merched Garndolbenmaen penderfynwyd rhoi siec o £100 i Ysgol Garndolbenmaen i dalu am y gost o logi ystafell yno.<br><br>Roedd pawb yn gytûn wrth ddyrannu'r arian. |
| 11. | Penodi Archwilydd Mewnol | Penderfynwyd penodi Hughes-Jones Dyson i fod yn archwilydd mewnol. Pawb yn gytûn. |
| 12. | Cyfrif Cadw | Mae llog cyfrif cadw presennol y Cyngor Cymuned gyda HSBC yn 1.32% ac yn mynd i ostwng i 1.20% o'r 10fed o Fawrth 2026 ymlaen.<br><br>Rhannwyd a chyflwynwyd gwybodaeth am wahanol gyfrifon cadw busnes sydd ar gael ar hyn o bryd. Trafodwyd Moneybox, Unity |

| | | |
|---|---|---|
| | | Trust Bank, Virgin Business Access Savings Account, Hinkley & Rugby Building Society, Tide a Hampshire Trust Bank.<br><br>Penderfynwyd agor cyfrif cadw Virgin Business Access Savings Account. IE yn cynnig a CW yn eilio. Pawb yn gytûn.<br><br>Manteision y cyfrif yma yw nad oedd ffi a chost i'r cyfrif. Mae'n gyfrif ar-unig (stand alone) gyda mynediad cyflym (instant Access).<br><br>Mae'r llog yn 3.45% Gross a 3.5% AER.<br><br>IE yn cynnig ein bod yn trosglwyddo £30,000 i'r cyfrif cadw newydd. MLW yn eilio a phawb yn cydweld.<br><br>Clerc i anfon holl fanylion y cyfrif i'r cynghorwyr. |
| 13. | Gohebiaeth | Dim |
| 14. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru - Hyfforddiant Ionawr – Mawrth (Rhannwyd)<br>b. Cyngor Tref Pwllheli – Diffyg gwasanaeth bws hwyr – Rhannwyd a phenderfynwyd ymateb i gefnogi ond hefyd i nodi bod hyn yn broblem ledled y Sir.<br>c. Pensolar Cymru – Grant Grid Cenedlaethol (Rhannwyd gyda Neuaddau Pentref i gyd)<br>ch. Unllais Cymru – Agenda Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor 03/02/26<br>d. Max Baring – Mater Cynllunio – Gyfyng, Cwm Pennant – Clerc i ymateb yn dweud nad ydym yn trafod cynllunio tan mae cais wedi ei gyflwyno. Clerc i ymateb yn dweud hyn. |
| 15. | Cynllunio | **Rhestrau:** 05/01, 12/01, 19/01 a 26/01<br><br><u>Ceisiadau Cynllunio</u><br><br>**NP2/16/306B** – Isallt Bach, Golan, Garndolbenmaen, LL51 9AQ. Codi garej ar wahân. Ddim yn cefnogi'r cais. |
| 16. | Materion Ariannol | **<u>Ceisiadau am arian:</u>**<br>Neuadd Garndolbenmaen<br><br>**<u>Monitro'r Gyllideb</u>**: Dim Gorwariant<br><br>**<u>Biliau i'w talu:</u>**<br><br>Cyflog Clerc £ 342.89<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 85.60<br>Y Ffynnon £ 28.00<br>Rhent Golan £ 275.00<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **<u>Derbyniadau –</u>**<br><br>Dim<br><br>**<u>Balansau Cyfrifon:</u>**<br>Cadw – £39,000<br>Cyfredol- £775.00 |
| 18. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Rhoddion Ariannol<br>Gwaith Mynwent Golan<br>Goryrru ym Mhenmorfa<br>Lôn Golan a Chwm Pennant<br>Safle Bws Bryncir |